# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd/Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 11 Tachwedd 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

# 302(v5)

**Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.**

**Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.**

**Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.**

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel y Gweinidog Pontio Ewropeaidd)

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Rhoi'r Strategaeth Ryngwladol ar Waith

(45 munud)

## 4 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol:**

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Yn sgil y datganiad ar frechlyn COVID-19 gan Pfizer, pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch strategaeth ar gyfer cyflwyno'r brechlyn ledled Cymru?

## 5 Datganiadau 90 eiliad

(5 munud)

## Cynigion i ethol Aelodau i Bwyllgorau

**NDM7471** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol David Rowlands (Y Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

**NDM7472** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol David Rowlands (Y Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio) yn aelod o Bwyllgor y Llywydd.

**NDM7473** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Mandy Jones (Y Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio) yn aelod o'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

**NDM7474** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd , yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol:

1. David Rowlands (Y Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio) yn aelod o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

2. Caroline Jones (Y Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio) yn aelod amgen o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

## 6 Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021-22

(30 munud)

**NDM7458** Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 20.16:

Yn cytuno ar gyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021-22, fel y pennir yn Nhabl 1 o Gyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021-22, a osodwyd gerbron y Senedd ar 4 Tachwedd 2020 a'i bod yn cael ei hymgorffori yn y Cynnig Cyllidebol Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26(ii).

**Dogfennau ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Ymateb gan Gomisiwn y Senedd

## 7 Dadl ar Ddeiseb P-05-1060 Caniatewch i archfarchnadoedd werthu eitemau "nad ydynt yn hanfodol" yn ystod y cyfyngiadau symud

(30 munud)

**NDM7460** Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r ddeiseb 'P-05-1060 Caniatewch i archfarchnadoedd werthu eitemau "nad ydynt yn hanfodol" yn ystod y cyfyngiadau symud' a gasglodd fwy na 67,000 o lofnodion.

P-05-1060 Caniatewch i archfarchnadoedd werthu eitemau "nad ydynt yn hanfodol" yn ystod y cyfyngiadau symud

## 8 Dadl ar Adroddiad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar Effaith yr achosion o COVID-19 ar y diwydiannau creadigol

(30 munud)

**NDM7461** Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi adroddiad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 'Effaith yr achosion Covid-19 ar y diwydiannau creadigol', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Gorffennaf 2020.

**Dogfennau Ategol**

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adroddiad

## 9 Dadl ar Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Caffael cyhoeddus yn yr economi sylfaenol

(30 munud)

**NDM7459** Russell George (Sir Drefaldwyn)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar ei Ymchwiliad: Caffael yn yr Economi Sylfaenol - a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2020.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Medi 2020.

## 10 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Y Lluoedd Arfog

(60 munud)

**NDM7456** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi mai heddiw yw Diwrnod y Cadoediad.

2. Yn cofio ac yn anrhydeddu pawb sydd wedi colli eu bywydau ac wedi aberthu wrth wasanaethau ein gwlad, gan gynnwys clwyfedigion sifil gwrthdaro.

3. Yn diolch i'r holl sefydliadau hynny ledled Cymru sy'n gweithio i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog a'n cyn-filwyr.

4. Yn mynegi diolch am gyfraniad sylweddol y Lluoedd Arfog i'r ymateb COVID-19 cenedlaethol yng Nghymru.

5. Yn cydnabod y cyfraniad parhaus sylweddol y mae'r fyddin yn ei wneud i Gymru.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth iddi geisio cynnal Cyfamod y Lluoedd Arfog.

Cyfamod y Lluoedd Arfog (Saesneg yn unig)

**Cyd-gyflwynwyr**

Rebecca Evans

Siân Gwenllian

Caroline Jones

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd gwelliant 1 a gyflwynwyd i'r cynnig.**

**Gwelliant 2** Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cefnogi'r angen i ymdrechu i gael datrysiad heddychlon i bob gwrthdaro a rhoi terfyn ar ryfel.

Yn credu bod yn rhaid i Gymru, ar adeg o heriau cenedlaethol a byd-eang na welwyd eu tebyg o'r blaen, chwarae ei rhan wrth lunio dyfodol heddychlon ac felly yn croesawu sefydlu Academi Heddwch Cymru.

## 11 Cyfnod pleidleisio

## 12 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7457** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Mynd i'r afael ag amseroedd aros am driniaeth yn GIG Cymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 17 Tachwedd 2020

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 04/11/2020 i'w hateb ar 11/11/2020

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

**1** OQ55812

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith pandemig COVID-19 ar fusnesau yng Ngogledd Cymru?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

**2** OQ55825

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth i fusnesau yng Nghanol De Cymru yn sgil pandemig y coronafeirws?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

**3** OQ55811

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau gwella ffyrdd yn Sir Drefaldwyn?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

**4** OQ55838

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am isadeiledd rheilffyrdd yn y Gogledd?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

**5** OQ55827

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith y mae pandemig COVID-19 yn ei chael ar fusnesau yng Ngorllewin De Cymru?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

**6** OQ55819

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith cyfyngiadau symud ar economi Gogledd Cymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

7 OQ55818

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth i fusnesau lletygarwch ar ôl y cyfnod atal byr?

**Hefin David** *Caerffili*

8 OQ55824

**(e)**

Pa gymorth sydd ar gael i fusnesau yng Nghaerffili yr effeithiwyd arnynt gan y cyfnod atal byr a'r cyfyngiadau lleol a oedd ar waith cyn hynny?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

9 OQ55834

Tynnwyd yn ôl

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr unigolion duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n ymgymryd â phrentisiaethau a hyfforddeiaethau?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

10 OQ55840

**(e)**

A wnaiff Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwelliannau sy'n cael eu gwneud i'r rhwydwaith rheilffyrdd yn Islwyn?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

11 OQ55837

**(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella economi Gogledd Cymru unwaith y bydd pandemig COVID-19 wedi dod i ben?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

12 OQ55815

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn swyddi yn Alun a Glannau Dyfrdwy?

## Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

1 OQ55823

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch polisi masnach y DU fel y mae'n ymwneud â Chymru?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

2 OQ55841

**(e)**

Pa gynlluniau wrth gefn sydd gan Lywodraeth Cymru yn eu lle os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

3 OQ55817

**(e)**

Pa gamau y mae'r Cwnsler Cyffredinol yn eu cymryd i sicrhau bod ffermwyr yn ganolog i unrhyw gytundebau masnach rhyngwladol yn y dyfodol?

**David Melding** *Canol De Cymru*

4 OQ55828

**(e)**

Pa drefniadau sydd ar waith i gefnogi ffermwyr Cymru drwy'r broses bontio Ewropeaidd?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

5 OQ55820

**(e)**

Beth yw asesiad diweddaraf Llywodraeth Cymru o'r siawns o gael cytundeb masnach â'r UE?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

6 OQ55839

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol amlinellu cylch gwaith y grŵp cynghori ar bolisi masnach a gyhoeddwyd yn ei ddatganiad ysgrifenedig ar 3 Tachwedd 2020?

**David Rees** *Aberafan*

7 OQ55831

**(e)**

Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran nodi manylion y gronfa ffyniant gyffredin?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

8 OQ55836

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y gronfa ffyniant gyffredin a'i goblygiadau i Gymru?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**9** OQ55829

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o'r effaith y mae penderfyniadau a wneir yng Nhyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) yn ei chael ar bobl Cymru?